



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Y Draffordd


Roderick Hunt Alex Brychta




Rhagor o
Dylluanod



DRAKE




Aeth Cad a Dids i aros efo Nain.
Roedd Nain yn byw mewn pentref bychan.
Roedd Cad a Dids yn hoffi aros efo Nain.
Roedd hi'n hwyl.
Byddai'n gwneud i Cad a Dids chwerthin.



Aeth Nain â Cad a Dids i'r cwt.
Roedd ganddi syrpreis iddyn nhw.
"Agorwch y drws," meddai hi.
"Mae gen i syrpreis ichi."
"Be ydi o?" gofynnodd Dids.



Agorodd Cad a Dids y drws ac
edrych i mewn i'r cwt.
Cawson nhw syrpreis mawr.
"O na!" meddai Cad.
"Mae draig yn y cwt!"



“Nid draig go iawn ydi hi,” meddai Nain.

“Barcud ydi hwn.”

Edrychodd Cad a Dids ar y barcud.

“Barcud draig Chineaidd ydi o,” meddai Nain.

“Mae’n wych,” meddai Cad.




Roedd y plant eisiau hedfan y barcud.

“Mae’n ddiwrnod da i gael picnic,” meddai Nain.

“Ac mae’n ddiwrnod da i hedfan y barcud.

Mae’n eitha gwyntog.”

“Ga i ei hedfan gyntaf?” gofynnodd Cad.



Cafodd Nain hyd i le da i'r picnic.
Roedd yn agos at ei thŷ.
"Mae'r fan yma'n lle da i hedfan
y barcud," meddai.
Gadawodd i Cad hedfan y barcud gyntaf.

Aeth y gwynt â'r barcud i fyny i'r awyr.
Aeth yn uwch ac yn uwch.
"Mae'n edrych yn wych," meddai Dids.
Yn sydyn, cryfhaodd y gwynt.
"Paid â'i ollwng," galwodd Nain.




Plyciodd y gwynt y barcud draig
o law Cad.

Chwythodd i ffwrdd a glanio mewn coeden.

Roedd Cad yn torri'i chalon.

"Fedrwn i ddim dal fy ngafael ynddo," meddai.




Dringodd Dids y goeden a thynnu yn y
barcud, ond ddôi o ddim i lawr.

"Bydd yn ofalus," meddai Cad.

"Gwylia rhag iti ei dorri."


"A gwylia rhag iti syrthio," meddai Nain.



Roedd y barcud yn sownd yn y goeden.
Fedrai Dids mo'i gael i lawr.
Yn y diwedd, llwyddodd rhywun
i gael y barcud i lawr â pholyn hir.
"Diolch ichi," meddai Cad a Dids.



Aeth Cad a Dids i hedfan y barcud eto.
Gwelodd Dids flodau gwyltton.
"Gwylia'r blodau 'na!" meddai.
"Paid â'u sathru nhw."



Roedd Nain wedi cynhyrfu.

“Be sy’n bod, Nain?” gofynnodd Dids.

“Maen nhw eisiau adeiladu traffordd.


Maen nhw eisiau ei hadeiladu yn fan’ma,”
meddai Nain.

Roedd Cad a Dids wedi cynhyrfu hefyd.

Doedden nhw ddim eisiau traffordd yno.

“Chawn ni ddim picnic na mynd i chwarae
yn y goedwig wedyn,” meddai Cad.


“A chawn ni ddim hedfan y barcud.”



Pwyntiodd dynes at y goedwig.
Yna pwyntiodd at y pentref.
“Dyma ble bydd y draffordd yn mynd.
Bydd yn mynd rhwng y goedwig
a’r pentref,” meddai.




Roedd Nain wedi cynhyrfu’n arw.
Edrychodd ar y pentref ac
edrychodd ar ei thŷ.
“Dydan ni ddim eisiau traffordd yma,” meddai.
“Rhaid inni ei rhwystro.”



Dyweddodd Nain wrth bobl yn y pentref
am y draffordd.
Roedd pawb wedi cynhyrfu.
“Dydan ni ddim eisiau traffordd yma.
Rhaid inni ei rhwystro,” medden nhw.




Roedd pawb eisiau rhwystro'r draffordd.
“Dydan ni mo'i heisiau yma,” meddai Nain.
“Bydd yn difetha'n pentref.”
“Hen dro,” meddai dyn.
“Fedrwn ni mo'i rhwystro.”




Daeth pobl i dŷ Nain.
Gwnaethon nhw faneri a phosteri.
Gwnaeth Nain faner fawr.
Helpodd Cad hi.
“Stopiwch y draffordd,” meddai’r faner.

Roedd Dids yn un da am baentio.
Gwnaeth boster.
“Achubwch ein coedwig,” meddai’r poster.
“Mae’r faner yn edrych yn dda,” meddai Cad.
“Ac mae poster Dids yn edrych yn dda hefyd.”



Aeth pawb i gyfarfod.
Roedd dynes bwysig yno.
Pwyntiodd y ddynes at fap.
“Rhaid inni roi'r draffordd yma,”
meddai hi.

“Dydan ni ddim eisiau'r draffordd yma,” meddai
Nain. “Bydd yn difetha'r pentref.”
“Hen dro,” meddai'r ddynes.
“Rhaid iddi fynd rywle.
Fedra i mo'i rhwystro hi.”



Yn fuan, daeth loriau mawr a theirw dur
i'r pentref.

Doedd neb eisiau'r draffordd.

Roedd pawb eisiau ei rhwystro, ond
dechreuodd y teirw dur dyllu.


Edrychodd Nain ar y teirw dur.

“Bydd y draffordd yn difetha
cefn gwlad,” meddai hi.


“Fyddwn ni ddim yn medru mynd am dro
drwy'r coed a chael picnic.”



Gwylodd y plant y teirw dur.
Edrychodd Cad ar y blodau gwylltion.
“O na!” meddai hi.
“Bydd y tarw dur yn eu codi cyn bo hir.
Beth am hel rhai i Nain?”



Gwnaeth Cad a Dids baned o de i Nain.
Rhoddon nhw'r blodau iddi.
“Rydan ni wedi hel y blodau yma i chi,”
meddai Dids.
“Bydd y tarw dur yn eu codi cyn bo hir.”



Edrychodd Nain ar y blodau.

“Dwi’n meddwl fod y blodau yma yn rhai prin iawn,” meddai hi.

“Welais i erioed mohonyn nhw o’r blaen.”

Neidiodd ar ei thraed a rhedeg i’r tŷ.



Edrychodd Nain mewn llyfr.

Cafodd hyd i lun o’r blodau.

“Mae hyn yn ardderchog!” gwaeddodd Nain.


“**Mae**’r blodau yma’n brin.

Rŵan medrwn ni rwystro’r draffordd.”



Daeth pobl o bobman.
Edrychon nhw ar y blodau prin.
“Mae hyn yn rhyfeddol,” medden nhw.
“Welson ni erioed y blodau yma o'r blaen.
Rhaid eu hachub nhw.”

“Hwrê!” gwaeddodd Nain.
“Bydd y blodau yma yn rhwystro'r draffordd.
Fedran nhw ddim gosod traffordd yma.
Fedran nhw ddim difetha blodau prin.”




Achubwyd y blodau prin, a
phentref Nain hefyd.

Aeth y teirw dur a'r lorïau i ffwrdd, ond
gadawson nhw dwll mawr yn y ddaear.

“Diolch ichi am ein helpu ni
i rwystro'r draffordd,” meddai Nain.

“Beth wnewch chi efo'r twll?” gofynnodd Cad.
Gwenodd Nain. Roedd ganddi syniad.



Cafodd y twll mawr ei wneud yn llyn.
Daeth hwyaid i fyw arno a
thyfodd blodau gwylltion o'i amgylch.
"Bydd y plant yn hoffi hwn," meddai Nain.
"Mae'n well na thraffordd."

Y Draffordd



Coeden
Ddarlien
Rhydychen

Cam 7

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws



Rhagor o
Dylluanod

Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosoriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwylt
Yr Allwedd Sgleiniog

Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineiaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1995
Ⓢ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓢ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-304-0



ISBN 0 86 174304 0

DRAKE

9 790861 743048